
Rhif: **WG19421**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion



# Drafft o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru)

Dyddiad cyhoeddi: **Awst 2013**

# Drafft o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru)

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol; penaethiaid; cyrff llywodraethu; plant a phobl ifanc; rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

**Trosolwg**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein ar y reoliadau drafft a wnaed o dan adran 4 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009. Mae'r Rheoliadau'n gosod y safonau maeth a'r gofynion ar gyfer bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion (gan gynnwys ysgolion meithrin) a gynhelir gan awdurdodau lleol (ALlau) yng Nghymru. Mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau drafft hyn yn seiliedig ar y safonau bwyd a maeth a argymhellwyd o dan agenda Blas am Oes Llywodraeth Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 1076
e-bost: WELLBEINGshare@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

ISBN digidol 978 1 4734 0057 3
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19142

## Cynnwys

**Cyflwyniad** 1

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ar gyfer oedolion** 2

**Crynodeb o ymatebion i'r cwestiynau ar gyfer plant a phobl ifanc** 9

**Y camau nesaf** 13

**Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr – oedolion** 14

**Atodiad B: Rhestr o'r ymatebwyr – plant a phobl ifanc/ysgolion** 16

# Cyflwyniad

Pasiwyd Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ("y Mesur") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2009, gan dderbyn Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Hydref 2009. Pwrpas y Mesur yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu annog disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru i fwyta'n iach ac i yfed diodydd iach. Mae'n darparu ar gyfer rheoleiddio pa fwydydd a diodydd a gynigir yn yr ysgolion hynny.

Rhwng 31 Ionawr a 25 Ebrill 2013, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar-lein ar y drafft o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) a wneir o dan y Mesur. Cyhoeddwyd dwy fersiwn o'r ddogfen ymgynghori – un ar gyfer oedolion a fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd y cwestiynau yn y ddwy fersiwn ychydig yn wahanol, ac felly mae'r ymatebion wedi cael eu crynhoi a'u dadansoddi ar wahân. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rheini sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ar gyfer oedolion

Daeth 85 o ymatebion i law Llywodraeth Cymru, ac mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad A (gweler tudalen 14). Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn chwech o gwestiynau. Ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr ateb pob un cwestiwn, a gwnaeth eraill anfon crynodeb o'u sylwadau yn hytrach na defnyddio'r ffurflen a gyhoeddwyd ar y wefan. Mae pob un ymateb wedi ei ystyried wrth baratoi'r crynodeb dadansoddol hwn.

**Cwestiwn 1 (Rheoliad 4 ac Atodlen 1) – Ydych chi'n cytuno mai dim ond diodydd sy'n seiliedig ar laeth neu iogwrt, grawnfwyd (nad yw wedi'i orchuddio â siwgr/siocled/powdwr coco nac sydd â blas unrhyw un o'r rhain), ffrwythau a bara y dylid eu cynnwys mewn brecwastau ysgolion?**

| **Ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 56 | **Nac ydw** | 5 | **Ddim yn siŵr** | 11 |

| **Ysgolion uwchradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 47 | **Nac ydw** | 14 | **Ddim yn siŵr** | 8 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn mewn perthynas â'r sector meithrin/cynradd a'r sector uwchradd.

- Roedd y sylwadau canlynol yn nodweddiadol o'r ymatebion a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn:

  *'Ydw, mae hyn yn rhesymol ac mae'n gyson ag agenda Blas am Oes.'*

  *'Rydyn ni'n cytuno . . . Bydd hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael brecwast iach a llawn maeth, a fydd yn ddechrau da i'r diwrnod gan eu helpu i ddatblygu arferion bwyta da.'*

- Er eu bod yn cytuno â'r newidiadau, roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y bwydydd a awgrymir ar gyfer brecwast yn rhy gyfyngedig ac y dylai amrywiaeth ehangach o fwydydd iach fod ar gael, er enghraifft bwydydd sy'n rhoi protein, megis wyau neu selsig ac ati, a hefyd llysiau megis ffa a thomatos. Roedd hyn yn wir ar draws y ddau sector ond roedd yn arbennig o wir o ran ysgolion uwchradd (lle mae brecwast ar gael) gan fod yr ymatebwyr o'r farn bod angen cynnig brecwast mwy sylweddol.

- Er eu bod yn cytuno â'r newidiadau, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod y diodydd a awgrymir ar gyfer brecwast hefyd yn rhy gyfyngedig ac y dylai diodydd heblaw am laeth fod ar gael er mwyn ymateb i

anghenion/anoddefiadau deietegol, e.e. suddion ffrwythau a llysiau yn y ddau sector a diodydd poeth hefyd mewn ysgolion uwchradd.

- Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod angen mwy o eglurder o ran yr hyn a nodir yn Rheoliad 4 ac Atodlen 1, sef ynghylch y grawnfwydydd a'r mathau o fara a ganiateir; a yw sbreds braster/siwgr isel yn cael eu caniatáu ar fara/tost; a ddylid nodi uchafswm cynnwys ar gyfer braster, halen a siwgr; a pha fath o laeth sy'n addas ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran.

**Cwestiwn 2 (Rheoliad 5 ac Atodlen 2) – Lle bydd cinio ysgol yn cael ei gynnig i ddisgyblion mewn ysgolion meithrin a gynhelir, ac nad ydynt yn dilyn y gofynion ar gyfer cinio a ddarperir mewn ysgolion cynradd, ydych chi'n cytuno y dylai o leiaf gynnwys ffrwythau a llysiau, cig, pysgod a ffynonellau eraill o brotein nad ydynt yn seiliedig ar laeth, bwydydd startsh a bwydydd llaeth a llaeth?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 65 | **Nac ydw** | 1 | **Ddim yn siŵr** | 8 |

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn gan roi rhesymau megis yr isod:

  *'Rydyn ni'n cytuno . . . mae arferion bwyta da yn cael eu datblygu yn gynnar mewn bywyd ac mae'n bwysig bod ysgolion meithrin yn darparu bwyd sy'n cyfrannu at ddeiet iach a chytbwys, gan hyrwyddo arferion bwyta iach.'*

  *'Mae'r grwpiau bwyd hyn yn rhoi egni yn ogystal â gwahanol faethynnau y mae eu hangen ar blant i dyfu a datblygu. Mae felly'n briodol ei gwneud yn ofynnol bod cinio ar gyfer plant meithrin yn cynnwys bwydydd o bob un o'r pedwar grŵp bwyd hwn os na fydd y cinio mewn ysgol feithrin yn bodloni'r Rheoliadau.'*

- Er eu bod yn cytuno â'r cwestiwn hwn, roedden nhw'n teimlo yn y pen draw y dylai'r un safonau fod mewn grym ar gyfer ysgolion meithrin ag ar gyfer ysgolion cynradd, ac y dylai hynny gael ei nodi yn y rheoliadau.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r cwestiwn hwn, yn teimlo bod angen mwy o eglurhad o ran maint y dognau a pha mor aml y dylid cynnig mathau o fwydydd a diodydd:

  *'Hefyd mae angen i ysgolion, lle mae disgyblion meithrin a disgyblion cynradd, gael eglurhad o ran pam mae gofynion gwahanol ar gyfer diodydd fel y ceir yn atodlen 5, h.y. mae sudd ffrwythau'n dderbyniol mewn ysgolion uwchradd; dim ond yn dderbyniol ar adegau pryd bwyd mewn ysgolion cynradd a meithrin; a dim ond yn dderbyniol pan fydd wedi ei wanhau gyda dŵr yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.'*

**Cwestiwn 3 (Rheoliad 6 ac Atodlenni 3 a 4) – Ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau ymarferol mawr o ran gweithredu'r gofynion bwyd a'r safonau maeth mewn perthynas â chinio ysgol?**

| **Ysgolion cynradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 29 | **Nac ydw** | 32 | **Ddim yn siŵr** | 10 |

| **Ysgolion uwchradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 43 | **Nac ydw** | 17 | **Ddim yn siŵr** | 5 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai fod anawsterau ymarferol sylweddol wrth geisio gweithredu'r gofynion mewn ysgolion uwchradd. Roedd mwy o wahaniaeth barn ymhlith y rheini a ymatebodd ynghylch ysgolion cynradd.

- Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r farn y bydd yn haws gweithredu'r safonau mewn perthynas â chinio mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig y safonau ar gyfer maethynnau. Mewn ysgolion uwchradd, mae yna ddiwylliant o ddewis bwyd ar frys a hefyd mae ysgolion yn cystadlu â siopau lleol, gan fod y disgyblion yn gallu dewis mynd i siop a phrynu bwyd afiach.

- Un anhawster a ragwelir yw y byddai'n anodd perswadio disgyblion i ddewis y bwyd iach a gynigir. Roedd pobl yn teimlo nad yw bwydydd iach yn edrych mor ddeniadol ac nad ydyn nhw mor flasus, ac o siarad yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn fodlon bwyta bwydydd o'r fath. Yn achos ysgolion uwchradd, y gred yw y byddai'r disgyblion naill ai'n gadael y safle i gael cinio neu'n dod â bwyd afiach i mewn i'r ysgol. Oherwydd hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai fod cyfyngiadau ar y mathau o fwyd y caiff y plant ddod ag ef i'r ysgol, gydag un ymatebydd hyd yn oed yn dweud y dylid nodi'r mater hwn yn y rheoliadau.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn galw am gyhoeddi canllawiau i helpu i ddehongli a gweithredu'r rheoliadau, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth, a hefyd unrhyw ganlyniadau a allai ddeillio o beidio â chydymffurfio. Dylai'r canllawiau hefyd roi cymorth ar gyfer ymdrin ag anghenion deietegol/anoddefiadau bwyd.

- Roedd teimlad ar draws yr holl sectorau y byddai gweithredu'r safonau hyn yn arwain at gostau uwch a phwysau ar gyllidebau, yn enwedig gan y byddai angen prynu cynhwysion o ansawdd gwell ac y byddai costau llafur oherwydd byddai'n cymryd mwy o amser i gynhyrchu prydau bwyd o ansawdd gwell. Hefyd byddai cost ychwanegol o orfod darparu hyfforddiant parhaus a dadansoddi maeth, sef gwaith y byddai angen i ddeietegydd ei wneud gan y gallai fod yn fater cymhleth.

- Nid oedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddai unrhyw anawsterau ymarferol sylweddol o ran gweithredu'r gofynion, ac roedd eu prif resymau hwythau'n cynnwys:

  *'Mae hyn i gyd wedi ei gyflawni eisoes yn ein hysgol ni, ac er bod rhai anawsterau i ddechrau gwnaethon ni ddal ati. Wrth i'r plant symud ymlaen trwy'r grwpiau blwyddyn, maen nhw'n dod i arfer gyda'r hyn sydd ar werth.'*

  *'Os bydd y cyfathrebu'n ddigon clir ac yn egluro'r rhesymau y tu ôl i'r Rheoliadau wrth eu cyflwyno, fel bod yr ysgolion a'r gymuned ehangach yn deall, dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd unrhyw anawsterau sylweddol.'*

**Cwestiwn 4 (Rheoliad 7 ac Atodlen 5) – Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu ar ddiodydd, er mwyn annog plant i yfed dŵr a diodydd sydd â budd maethol clir?**

| **Ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 58 | **Nac ydw** | 5 | **Ddim yn siŵr** | 10 |

| **Ysgolion uwchradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 57 | **Nac ydw** | 6 | **Ddim yn siŵr** | 4 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cyfyngu ar ddiodydd yn y ddau sector.

- Dyma sylwadau sy'n nodweddiadol o'r rheini a oedd yn cytuno:

  *'Dylai plant a phobl ifanc gael eu hannog i yfed dŵr yn rheolaidd fel eu dewis cyntaf, a hefyd fel y ddiod y bydden nhw'n ei defnyddio ar gyfer hydradu.'*

  *'Byddai cyfyngu ar ddiodydd, trwy gynnig diodydd sydd o fudd maethol yn unig, yn helpu i leihau nifer y calorïau 'gwag' y mae'r disgyblion yn eu cael, gan leihau'r risg y byddan nhw'n mynd yn dew neu'n ordew.'*

- Er eu bod yn cytuno â'r cwestiwn, roedd rhai ymatebwyr ym mhob sector yn pryderu y gallai hyn olygu y byddai cynnydd yn nifer y diodydd afiach y mae'r disgyblion yn dod â nhw i'r ysgol.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn galw am gyhoeddi canllawiau i egluro materion megis: a oes cyfyngiad ar ba mor fawr y gallai diod fod; i ba raddau y dylid gwanhau suddion ffrwythau/llysiau trwy ychwanegu dŵr; a fydd y cyfyngiadau'n berthnasol i staff/ymwelwyr; a oes eithriadau oherwydd alergedd neu anoddefiadau.

- Roedd rhai o’r ymatebion yn cytuno â’r diodydd a ganiateir mewn ysgolion cynradd ond yn anghytuno â’r diodydd a ganiateir mewn ysgolion uwchradd, gan eu bod o’r farn bod gwahaniaeth anferth rhwng y rhestr hon a’r hyn a ganiateir mewn ysgolion cynradd.

- O’r nifer bach o ymatebwyr a oedd naill ai’n anghytuno â’r cwestiwn neu nad oedden nhw’n siŵr, roedd rhai’n teimlo y dylid caniatáu sudd ffrwythau, a dylid ei wanhau â dŵr pe bai hynny’n fwy priodol ar gyfer plant iau. Roedd eraill o’r farn y dylid caniatáu llaeth â blas, neu sgwosh heb fawr o siwgr ynddo, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

**Cwestiwn 5 (Rheoliad 8 ac Atodlen 6) – Ydych chi'n cytuno y dylai’r bwyd a ddarperir, nad yw'n rhan o frecwast neu ginio mewn ysgol, fod o fudd maethol clir?**

| **Ysgolion meithrin** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 56 | **Nac ydw** | 1 | **Ddim yn siŵr** | 10 |

| **Ysgolion cynradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 60 | **Nac ydw** | 1 | **Ddim yn siŵr** | 10 |

| **Ysgolion uwchradd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 59 | **Nac ydw** | 4 | **Ddim yn siŵr** | 3 |

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cwestiwn hwn ar draws pob sector, ac o’r lleiafrif a oedd yn anghytuno, roedd y rhan fwyaf yn gwneud hynny mewn perthynas ag ysgolion uwchradd yn unig.

- Dyma’r hyn yr oedd gan yr ymatebwyr a gytunodd i’w ddweud:

  *‘Dylai unrhyw fwyd a gynigir yn ystod y diwrnod ysgol fod yn gyson â’r negeseuon bwyta’n iach a hefyd yn gyson ar draws yr holl leoliadau.’*

  *‘Trwy sicrhau bod byrbrydau llawn maeth ar gael yn rhwydd, bydd yn haws i blant a phobl ifanc gael deiet iach a chytbwys.’*

- Roedd rhai o’r ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â’r cwestiwn, yn teimlo y dylid cynnig dewis ehangach o fwydydd iach. Roedden nhw o’r farn bod yr hyn a awgrymir yn rhy gyfyngedig, ac y dylai’r dewis gynnwys cynhyrchion llaeth, wyau, cacenni reis plaen, popcorn a thost.

- Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo na ddylai sefyllfaoedd eraill megis clybiau ar ôl ysgol, paratoi bwyd mewn gwersi technoleg bwyd, digwyddiadau codi arian nac unrhyw ddigwyddiadau eraill a drefnir gan yr ysgol, fod yn esempt rhag y rheoliadau.

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yn rhaid darparu canllawiau manwl i helpu ysgolion i weithredu'r gofynion newydd o ran faint o siwgr a halen a ganiateir, gwybodaeth am ymdopi ag anghenion/anoddefiadau deietegol, a hefyd rhestr o'r bwydydd a ganiateir, gan gynnwys cynhyrchion llaeth.

- O'r nifer bach o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, y prif reswm a nodwyd ganddynt oedd y dylai disgyblion gael dewis.

**Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.**

Gellir rhannu'r sylwadau a nodwyd yn yr adran hon fel a ganlyn.

- Dylai'r rheoliadau fynd ymhellach nag y maen nhw ar hyn o bryd. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r canlynol hefyd gael ei gyfyngu o dan y rheoliadau ac na ddylent gael eu hesemptio: bwyd y mae disgyblion yn dod ag ef i mewn i'r ysgol; bwyd a ddefnyddir fel gwobr ar gyfer cyrhaeddiad neu ymddygiad da; a'r hyn a gynigir mewn digwyddiadau ysgol neu mewn gwersi coginio, oherwydd fel arall gallant danseilio'r negeseuon ynghylch bwyta'n iach. Roedd galw am i'r rheoliadau nodi y dylai sudd ffrwythau gael ei wanhau â dŵr ar gyfer plant dan bump oed a hefyd dylent gynnwys safonau llymach er mwyn cyfyngu ar fwydydd startsh eraill sydd wedi eu coginio mewn braster neu olew. Roedd rhai hyd yn oed yn teimlo na ddylid caniatáu i ddisgyblion adael y safle yn ystod amser cinio.

- Mae angen i'r rheoliadau fod yn gliriach mewn perthynas â rhai meysydd penodol. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys: pa ddewisiadau eraill ddylai fod ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion deietegol/diwylliannol; ac a ddylai'r rheoliadau gynnwys clybiau ar ôl ysgol/peiriannau gwerthu ar y safle a chanolfannau hamdden neu leoliadau eraill a ddefnyddir gan yr ysgol.

- Mae angen cyhoeddi canllawiau i helpu i weithredu'r rheoliadau a rhoi eglurhad pellach. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod angen canllawiau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau – er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth a beth fyddai canlyniadau peidio â chydymffurfio; beth yn union yw cyfleusterau bwyta priodol ac am ba mor hir y dylid torri am ginio?

- Er bod ysgolion wedi cael grantiau am y tair blynedd diwethaf i'w helpu i weithredu'r agenda hon, roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn dal i deimlo bod yr amserlen ar gyfer ei gweithredu yn afrealistig, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion uwchradd.

- Codwyd pryderon o ran yr amser y byddai'n ei gymryd, a hefyd y staff y byddai eu hangen, i baratoi bwydlenni sy'n cydymffurfio yn ôl y feddalwedd dadansoddi maeth gan y byddai hynny'n arwain at gostau uwch, a hefyd yn lleihau nifer y plant sy'n manteisio ar brydau bwyd yr ysgol os nad ydyn nhw'n digwydd hoffi'r dewisiadau iach.

## Crynodeb o ymatebion i'r cwestiynau ar gyfer plant a phobl ifanc

Daeth 851 o ymatebion i law oddi wrth blant a phobl ifanc. Fe'u gwahoddwyd i ystyried pum cwestiwn, gan ymateb yn uniongyrchol trwy nodi 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'. Roedd Cwestiwn 6 ar y diwedd yn rhoi cyfle iddynt godi unrhyw faterion eraill yr oedden nhw'n credu y dylid eu hystyried wrth wneud y rheolau hyn. Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad B (gweler tudalen 16).

**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da i frecwast yn yr ysgol gynnwys y pethau yma'n unig:**

- **diodydd sydd wedi'u seilio ar laeth neu iogwrt**
- **grawnfwyd, ond nid rhai â siwgr, siocled neu bowdwr coco arnyn nhw**
- **ffrwythau**
- **bara?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 435 | **Nac ydw** | 306 | **Ddim yn gwybod** | 107 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn.

- Y prif reswm a roddwyd gan y rheini a oedd yn cytuno oedd y dylai brecwast fod yn iach gan mai hwn yw pryd bwyd pwysicaf y diwrnod.

- Roedd y rhan fwyaf o'r holl ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a oedd wedi cytuno ac wedi anghytuno, yn teimlo y dylid darparu pethau eraill yn ychwanegol at y rhestr uchod, yn eu plith: sudd ffrwythau; smwddis; brecwast wedi ei goginio; croissants; bagels; jam; wyau; crempogau; nifer gwahanol o grawnfwydydd â siwgr/siocled arnyn nhw; bariau grawnfwyd a diodydd poeth.

- O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno, roedd llawer yn awgrymu y gellid caniatáu pethau eraill o'r fath (gweler y rhestr uchod) ar ddiwrnodau penodol neu ar fwy nag un diwrnod yr wythnos.

**Cwestiwn 2**

**Ydych chi'n meddwl bod y bwydydd sydd wedi'u rhestru ar gyfer cinio ysgolion meithrin yn syniad da?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 313 | **Nac ydw** | 111 | **Ddim yn gwybod** | 386 |

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn ansicr sut i ymateb i’r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o’r ymatebwyr a oedd yn teimlo eu bod yn gallu nodi ateb, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â’r cwestiwn hwn.

- Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ei bod yn bwysig i blant iau gael dechrau iach i’w bywydau.

- O’r rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd wedi dewis ‘Ddim yn gwybod’, mae’n ymddangos na chafodd y rhestr o fwydydd a ganiateir i blant meithrin ei rhoi iddynt, ac yn gyffredinol roedd llawer o ddryswch ynghylch y cwestiwn hwn.

- Roedd rhai o’r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r cwestiwn yn teimlo y dylid trin disgyblion meithrin yr un fath ac na ddylid caniatáu iddynt gael bwydydd gwahanol.

**Cwestiwn 3**

**Ydych chi’n meddwl y bydd yna broblemau wrth wneud yn siŵr bod bwyd sy’n cael ei roi i ginio’n faethlon ac yn iach?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 336 | **Nac ydw** | 294 | **Ddim yn gwybod** | 210 |

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno y gallai problemau godi wrth geisio gwneud yn siŵr bod y bwyd a gynigir yn faethlon ac yn iach. Serch hynny, roedd canran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl na fyddai unrhyw broblem yn dal yn fawr.

- O’r ymatebwyr a oedd yn cytuno y gallai fod yna broblemau, y prif resymau a roddwyd oedd: y gallai newid yn gyflym olygu y byddai disgyblion yn dod â bwydydd/diodydd afiach o gartref; gallai fod yna broblemau i ddisgyblion sydd ag anghenion bwyd arbennig, e.e. diabetes/crefydd/afiechydon; mae’n bosibl y byddai rhai disgyblion yn dewis mynd heb fwyd pe na baent yn hoffi’r hyn sydd ar gael; gallai’r newidiadau fod yn ddrutach; ac mae angen rhywfaint o siwgr ar ddisgyblion er mwyn rhoi egni iddynt.

- O’r ymatebwyr nad oeddent o’r farn y byddai unrhyw broblem ynghylch cynnig bwyd iach, y prif reswm a roddwyd oedd bod eu hysgolion hwythau yn darparu/neu y dylai eu hysgolion ddarparu bwydydd iach beth bynnag, a bod y rhan fwyaf o bobl yn hoffi dewisiadau iach mewn gwirionedd.

**Cwestiwn 4**

**Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da mai dim ond diodydd sy'n faethlon ac yn iach sy'n cael eu rhoi mewn ysgolion ac ar gyfer cinio?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 377 | **Nac ydw** | 353 | **Ddim yn gwybod** | 110 |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno hefyd yn uchel iawn gan ddangos bod yna wahaniaeth barn.

- Prif resymau'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn oedd eu bod yn teimlo y dylid cyfyngu ar ddiodydd afiach er mwyn helpu plant i fod yn iach, gan nad yw diodydd pefriog yn dda i blant a'u bod yn eu gwneud yn orfywiog.

- Roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cwestiwn, yn teimlo y dylai fod mwy o amrywiaeth, er enghraifft, y dylid caniatáu diodydd pefriog, ysgytlaeth, sgwosh a suddion.

- O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, roedd eu rhesymau eraill yn cynnwys nid oedden nhw'n hoffi diodydd iach, roedd rhai'n awgrymu y dylid cyfaddawdu a chaniatáu diodydd pefriog/afiach ar un diwrnod neu fwy o'r wythnos, ac roedd eraill yn dadlau y byddai'r dysgwyr yn dod â'u diodydd afiach eu hunain i mewn i'r ysgol.

**Cwestiwn 5**

**Ydych chi'n cytuno y dylai bwyd sy'n cael ei roi fel byrbrydau fod yn faethlon ac yn iach?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 368 | **Nac ydw** | 321 | **Ddim yn gwybod** | 147 |

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn, roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn agos iawn, gan ddangos bod barn pobl yn amrywio.

- Prif reswm yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn oedd: os bydd disgybl yn awyddus i fwyta byrbrydau afiach, bydd yn dod â'r bwyd i mewn i'r ysgol ei hunan; ni ddylai ysgolion werthu bwyd afiach gan fod hynny'n annog plant i fynd yn ordew; a phan fydd llawer o fyrbrydau afiach ar gael, mae'n demtasiwn eu bwyta.

- Prif reswm yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn oedd: dylid caniatáu byrbrydau afiach o leiaf nawr ac yn y man yn ystod yr wythnos neu ar adegau arbennig, e.e. y Pasg; roedd eraill yn teimlo y dylen nhw gael bwyta byrbryd afiach os oedden nhw wedi bwyta

cinio maethlon; dywedodd eraill eu bod yn cysylltu'r gair byrbryd gyda bwyd afiach; dywedwyd y bydden nhw'n hoffi cael bisgedi, caws, creision, siocled a melysion.

- O'r ymatebwyr a ddewisodd 'Ddim yn gwybod', roedd y rhan fwyaf wedi gwneud hynny oherwydd eu bod yn credu y dylai rhai o'r byrbrydau a oedd yn cael eu gwerthu fod yn iach ac eraill yn afiach, ac wedyn byddai'r plant yn cael penderfynu pa rai maen nhw am eu bwyta.

**Cwestiwn 6**

**Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano wrth wneud y rheolau yma?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | 314 | **Nac ydw** | 285 | **Ddim yn gwybod** | 229 |

Cafwyd llawer o sylwadau. Y prif rai oedd bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried:

- plant sydd ag anghenion deietegol oherwydd eu crefydd; cyflyrau meddygol; anoddefiadau bwyd neu eu bod yn llysieuwyr

- yr hyn mae plant yn ei hoffi mewn gwirionedd; mae plant yn mwynhau bwyd afiach

- cynnig bwyd afiach bob hyn a hyn, e.e. ar rai diwrnodau'r wythnos neu fel byrbrydau

- mae bwyd/byrbrydau iach yn ddrutach

- weithiau mae bwyd iach heb ddigon o flas neu â blas cas arno. Os bydd bwyd iach yn cael ei gynnig, rhaid iddo fod yn flasus a dylid cynnig amrywiaeth o fwydydd iach

- bydd plant yn dod â'u bwyd a/neu ddiodydd afiach eu hunain i mewn i'r ysgol.

## Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad hwn, gan ystyried hefyd a fydd angen diwygiadau deddfwriaethol pellach.

## Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr – oedolion

| Rhif | Unigolyn/Sefydliad |
|---|---|
| 1 | Joerg Thieme |
| 2 | Ymateb cyfrinachol |
| 3 | Dawn Curran |
| 4 | Carol-Lesley Brown |
| 5 | Helen Woodbury |
| 6 | Ymateb cyfrinachol |
| 7 | Paul Chaplin |
| 8 | Ymateb cyfrinachol |
| 9 | Ysgol Gyfun Bro Morgannwg |
| 10 | Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig |
| 11 | Ymateb cyfrinachol |
| 12 | Ysgol Gynradd Jenner Park |
| 13 | Ysgol arbennig Ashgrove |
| 14 | Ymateb cyfrinachol |
| 15 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 16 | Emma Waters, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |
| 17 | Ymateb cyfrinachol |
| 18 | Marion Clark a Geinor Jones, Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda |
| 19 | Clare Norris ac Emma South, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |
| 20 | Estyn |
| 21 | Llywodraethwyr Cymru |
| 22 | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru |
| 23 | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru |
| 24 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 25 | Cyngor Caerdydd |
| 26 | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 27 | Cyngor Dinas Casnewydd |
| 28 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| 29 | Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| 30 | Tîm Iechyd Cyhoeddus Abertawe |
| 31 | Cymdeithas Ddeintyddol Prydain |
| 32 | CLILC |
| 33 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| 34 | Ymateb cyfrinachol |
| 35 | Plant yng Nghymru |
| 36 | Ysgol Gynradd Gatholig St Mary a St Patrick |
| 37 | Pwyllgor Optometrig Cymru |
| 38 | Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru |
| 39 | Ysgol Maes y Mynydd |
| 40 | Paula Roberts, Cyngor Sir Ddinbych |
| 41 | Ian Kemp, Cyngor Sir Ddinbych |
| 42 | Suzie Lochead, Cyngor Sir Ddinbych |
| 43 | Ymateb cyfrinachol |
| 44 | Gail, ysgol yn Sir Ddinbych |
| 45 | Linda, ysgol yn Sir Ddinbych |

| | |
|---|---|
| **46** | Marian/Louise, ysgol yn Sir Ddinbych |
| **47** | Rhian Owen/Gill Humphreys, ysgol yn Sir Ddinbych |
| **48** | Janet Duley, ysgol yn Sir Ddinbych |
| **49** | Irene Edwards, ysgol yn Sir Ddinbych |
| **50** | Claire Kerrigan, ysgol yn Sir Ddinbych |
| **51** | Joanne Fairclough, ysgol yn Sir Ddinbych |
| **52** | Ymateb cyfrinachol |
| **53** | Anna Brychan, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Cymru |
| **54** | Chris Keates, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau, Cymru |
| **55** | Ymateb cyfrinachol |
| **56** | Naomi McDonagh, Cyngor Sir Ceredigion |
| **57** | Anna Morgan, Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf |
| **58** | Patricia Mucavele, yr Ymddiriedolaeth Bwyd Plant |
| **59** | Gwyn Howells, Hybu Cig Cymru |
| **60** | Maxine Fowler, Rhiant |
| **61** | Rodney Berman, Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) |
| **62** | Eryl Powell, Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro |
| **63** | Sian Jenkinson/Lisa Williams, y Grŵp Cynghori ar Arwain Deieteg yng Nghymru a Deietegwyr Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru |
| **64** | Dafydd Aled Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **65** | Cymuned Dysgu Proffesiynol Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion Awdurdod Lleol Conwy, a hefyd ddisgyblion cynradd ac uwchradd |
| **66** | Jo Grashoff, Ysgol Gyfun Aberpennar |
| **67** | Toni Edwards, LACA |
| **68** | Catherine Davies, Ysgol Gyfun Croesyceiliog |
| **69** | Tina Donnelly, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru |
| **70** | Paul Williams, Green Gourmet |
| **71** | Joanna Lewis, Cymdeithas y Pridd/Partneriaeth *Food for Life* |
| **72** | Louise Allen, y Ffederasiwn Bwyd a Diod |
| **73** | Karl Bishop, Pwyllgor Deintyddol Cymru |
| **74** | Jill Paterson, Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru |
| **75** | Kerry Thomas, Ysgol Gynradd Bracla |
| **76** | Judith John, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **77** | Louise Kerton, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **78** | Ysgol Gynradd Gatholig St Robert |
| **79** | Claire Thompson, Grŵp Llywio Cynllun Gwên, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| **80** | Jenny Jones, Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent/Grŵp Strategaeth Gordewdra Gwent, Bwrdd Aneurin Bevan |
| **81** | Ele Hicks, Diverse Cymru |
| **82** | Mrs L Purnell, Ysgol Gynradd Corneli |
| **83** | Carole Tyley, Cyngor Bro Morgannwg |
| **84** | Nicola Morris, Cymdeithas Ddeieteg Cymru |
| **85** | Cath Sheen, Cyngor Sir Fynwy |

## Atodiad B: Rhestr o'r ymatebwyr – plant a phobl ifanc/ysgolion

| Rhif | Sefydliad |
|---|---|
| **01–19** | Maes Garmon |
| **20** | Ddim wedi nodi unrhyw fanylion cyswllt |
| **21–68** | Ysgol Gynradd Griffithstown |
| **70–113** | Ddim wedi nodi unrhyw fanylion cyswllt |
| **114** | Ysgol Gynradd Maes y Mynydd |
| **115** | Ddim wedi nodi unrhyw fanylion cyswllt |
| **116–436** | Ysgol ym Mhenarth |
| **437–445** | Ysgol Gynradd Porthcawl |
| **446–474** | Dysgwyr mewn cynhadledd Bagloriaeth Cymru yn Aberystwyth |
| **475–851** | St Richard Gwyn |